

Pwyllgor Ieuenctid Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar-lein ar y 13^{eg} o Hydref 2020 am 5.00pm

Yn bresennol yn y cyfarfod:

Pwyllgor Ieuenctid: Phoenix (9.5 / 10.5), Rory (), Jazz (8/10, Mathew G (7.5/8.5)

Staff: Suzanne (7/8), Tom (8/9.5), Graham (7.5,8.5), Reg Owens (9/9)

Ymddiheuriadau: Habeba, Amy

Materion a Drafodwyd

Eitem Agenda	Trafodaeth	Camau Gweithredu
1	Croeso a chyflwyniadau / Mewngofnodi ac allangofnodi fel uchod mewn cromfachau	
2	Diweddariad APCAP: <ul style="list-style-type: none">Dywedodd Graham bod timau'r Parc Cenedlaethol wedi bod yn gynhyrchiol iawn yn gweithio gyda'r ysgolion ac allan yn y Parc. Er bod cyfyngiadau o ran trafnidiaeth wedi atal staff / disgyblion rhag mynd o gwmpas, roedd staff y PC wedi bod yn gynhyrchiol yn yr ysgolion.Roedd athrawon o bob cwr o'r sir wedi bod yn rhan o'r rhaglen Dysgu drwy Dirweddau - sut i gael y gorau o dir eich ysgol.Hefyd cymerodd y staff ran mewn sesiwn cyfnos ar iechyd a diogelwch a gyflwynwyd gan Dave Sommerville. Roedd dros 100 o gynrychiolwyr ac 20 o ysgolion wedi cymryd rhan yn y sesiwn.Penodwyd parcmon newydd, Vicky, i weithio yn ardaloedd gorllewinol y Parc - Sain Ffraid, Nolton, Little Haven a'r ardaloedd cyfagos.	
3	Diweddariad Ieuenctid: <ul style="list-style-type: none">Dywedodd Suzanne bod rownd newydd o arian Banc Ieuenctid ar gael yn awr ac y gall aelodau wneud cais am grant hyd at £1,000.Dywedodd Suzanne bod Dilly Burrell wedi mynychu cyfarfod o bwyllgor y Cynulliad Ieuenctid gan rannu ei phrosiect Profiadau i Bawb, a chytunodd rhai aelodau i fod yn rhan o'r arolwg.	Gofyn am ffurflen gais a chanllawiau oddi wrth sue.moses@pembrokeshire.gov.uk gan nodi ai dymuno fersiwn Cymraeg neu Saesneg a fformat Word neu PDF.

<p>4</p>	<p>Ymgyrch Premiwm Natur:</p> <p>Gwahoddwyd Sara Collins yn gynnes i'r cyfarfod a rhoddodd drosolwg i'r aelodau o brosiect ymgyrchu y mae'n gweithio arno ar ran y rhaglen Ysgolion Coedwig. Rhoddodd Sara drosolwg o'i phrofiad hyd yn hyn, ac yn dilyn seibiant gyrfa, datblygodd ei gwaith gydag ysgolion coedwig a phlant trefol. Mae'r ymgyrch yn galw ar y llywodraeth i ariannu premiwm natur i ysgolion fel rhan o'u cyllid statudol i alluogi pob plentyn gael mynediad at natur. Mae'r ymgyrch hyd yn hyn wedi golygu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Codi Ymwybyddiaeth o'r Ymgyrch • Cysylltu â'r Rhai sy'n Gwneud Penderfyniadau • Ceisio cefnogaeth gan bobl ddylanwadol eraill • Ysgrifennu at Aelodau Seneddol <p>Pwysleisiodd Sara, er bod mwyafrif y gwaith yn cael ei wneud yn Lloegr, bod cynlluniau ar y gweill i gyflwyno'r ymgyrch i bob llywodraeth ddatganoledig (Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon).</p> <p>Rhannodd Sara fideo'r ymgyrch gyda'r aelodau ac yna agorodd y drafodaeth gan ofyn am farn yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cytunodd pawb bod yr ymgyrch yn un gadarnhaol. • Cysylltiadau da â rhannau o'n Maniffesto leuenctid. • Mae angen i natur fod yn rhan annatod o'r cwricwlwm addysg. Hanes natur TGAU wrthi'n cael ei gynllunio. • Bydd cynllun gwirfoddoli ar sail amser ar gael. • Creu cysylltiadau rhwng y Parc Cenedlaethol a'r awyr agored - roedd profiad Rory o hyn yn ei ysgol wedi bod yn rhagorol. • Soniodd Pheonix bod gan ei hysgol eco glwb ond nad oedd llawer yn ei fynychu. • Soniodd Suzanne am y cysylltiadau ag adroddiad Iechyd Emosiynol a Meddwl y Senedd leuenctid. • Cael llais drwy fideo i gefnogi'r ymgyrch. • Roedd Chris Packham a Iolo Williams ill dau wedi rhoi eu cefnogaeth i'r ymgyrch. <p>Diolchodd Tom i Sara am ei chyfraniad i'r cyfarfod.</p>	<p>https://www.naturepremium.org/</p> <p>Cytunodd aelodau'r Pwyllgor leuenctid i gefnogi'r ymgyrch, ac i ystyried sut ellir defnyddio'r ymgyrch fel rhan o'u meysydd gweithredu ar Greu cyfleoedd i bobl ifanc ymwneud â byd natur.</p> <p>Cynnwys #PremiwmNatur yn nhrafodaethau'r Pwyllgor leuenctid gydag arweinyddion Ysgolion CSP</p> <p>Potensial i'r pwyllgor anfon llythyr at Wleidyddion Lleol - CSP / AS / AoS. Gofyn o bosibl i Di Clements - Cynghorydd Sir ac aelod o Bwyllgor y Parc Cenedlaethol – gael gair â'r pwyllgor am y modd o fynd ati i ymgysylltu â'r gwleidyddion - CAM GWEITHREDU – ystyried yn y cyfarfod nesaf.</p> <p>Dylem hyrwyddo'r awyr agored fel modd i bobl ifanc fod yn fwy gwydn, ac fel cymorth i'w hiechyd meddwl</p> <p>https://www.youthparliament.wales/get-involved/emotional-and-mental-health-support</p>
----------	--	--

5	<p>Unicef – Ymgyrch Outright: Bu Tom yn trafod y cynlluniau i gynnal diwrnod gweithgareddau wyneb yn wyneb yng Nghastell Caeriw ddydd Sul y 1^{af} o Dachwedd i gyd-fynd â'r Ymgyrch Outright fydd yn diweddu ar Ddiwrnod Plant y Byd ar yr 20^{fed} o Dachwedd ac wythnos Hinsawdd Cymru 2^{ail} – 6^{ed} Tachwedd) a'r Ymgyrch Premiwm Natur. Bydd Jazz, Pheonix, Rory a Matt i gyd ar gael.</p> <p>Rhannodd Tom gofnodion y cyfarfod blaenorol, a chynhaliwyd trafodaethau mewn dau grŵp ymneilltuo i ystyried y ffordd ymlaen.</p> <p>Grŵp ymneilltuo 1 – Jazz, Matt, Suzanne. Tom</p> <ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio baneri, placardiau a phosteri. • Gweithredu uniongyrchol drwy benawdau newyddion. • You Tube/Fideo/Cyfringau Cymdeithasol. • Cysylltu ag ASau lleol. • Ysgrifennu adroddiadau - ar hyn o bryd mae Pheonix a Jazz yn ohebwy'r ifanc gyda'r rhaglen Gohebwy'r Ifanc y BBC. • Cododd Matt y cwestiwn ynghylch rolau /tasgau ar gyfer y diwrnod gweithgareddau. <p>Grŵp ymneilltuo 2 – Pheonix, Reg a Graham</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ffilm/fideo ar newid yn yr hinsawdd i gyrraedd pawb sy'n gysylltiedig â Hawliau Plant. <p>Trafodaeth ynghylch datblygu cynllun/briff ar gyfer y diwrnod i'w anfon at aelodau i'w gymeradwyo. Trafodwyd opsiynau cyllido posibl.</p>	<p>Tom – i drefnu'r diwrnod.</p> <p>Cynnwys yr elfennau hyn yn y cynllun ar gyfer y diwrnod.</p> <p>Cynnwys mewn camau dilynol fel bod gwneud ffilmiau yn rhan o ymgyrch Outright.</p> <p>Potensial i'r pwyllgor anfon llythyr at Wleidyddion Lleol - CSP / AS / AoS. Gofyn o bosibl i Di Clements - Cynghorydd Sir ac aelod o Bwyllgor y Parc Cenedlaethol – gael gair â'r pwyllgor am y modd o fynd ati i ymgylltu â'r gwleidyddion - CAM GWEITHREDU – ystyried yn y cyfarfod nesaf.</p> <p>Cyflwyno cais i'r Banc Ieuenctid am gyllid ar gyfer y prosiect ffilm - TOM i ddod o hyd i wirfoddolwr.</p>
Unrhyw fater arall	<p>Cynigiodd Tom yr opsiwn o gymryd rhan yng ngêm gardiau Fforwm Arfordirol Sir Benfro sy'n cael ei dreialu ar hyn o bryd. Pheonix â diddordeb.</p> <p>Atgoffodd Tom yr aelodau bod gofyn cael caniatâd i ddefnyddio'r Pencadlys.</p>	<p>Tom: Gwneud trefniadau ar gyfer gweithdy Cardiau.</p> <p>Dwyn ynghyd yr aelodau hynny sydd wedi cydsynio / mynd ar ôl y gweddill!</p>
	<p>Dyddiad y cyfarfod nesaf 5pm 10 Tach / 24 Tach / 8 Rhag / 22 Rhag</p>	
	<p>Daeth y cyfarfod i ben am 18:45</p>	